**<u>Cofnodion Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol, Ysgol Babanod Trallwng</u>**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | Dydd Llun 4 Tachwedd 2024 |
| **Amser** | 14:00 |
| **Math** | Wyneb yn wyneb |

| **Presenoldeb** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Llythrennau cyntaf yr enw** | **Teitl** |
| Grace Zecca-Hanagan | GZH | Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Sarah Nicholls | SN | Swyddog Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Susie Francis | SF | Pennaeth Ysgol Babanod Trallwng. |
| Dd/B | Dd/B | Cyngor Ysgol, Ysgol Babanod Trallwng |

1. **Croeso a Chyflwyniadau**

   Cyflwynodd y swyddogion a oedd yn bresennol eu hunain i'r Cyngor Ysgol a diolchwyd i'r aelodau am ddod i'r cyfarfod. Cyflwynodd aelodau'r Cyngor Ysgol eu hunain. Roedd holl aelodau'r Cyngor Ysgol a oedd yn bresennol yn ddisgyblion blwyddyn dau.

2. **Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

   Rhoddodd GZH drosolwg cryno o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn i'r Cyngor Ysgol, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

3. **Cwestiynau'r Cyngor Ysgol**

   Gwahoddwyd Cyngor Ysgol Ysgol Babanod Trallwng i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Mae'r cwestiynau a'r sylwadau a wnaed wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn ynghyd â'u hymateb, lle bo angen. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd sticeri i Gyngor Ysgol Ysgol Babanod Trallwng gydag wynebau trist, ansicr a hapus a gofynnwyd iddyn nhw ddewis sticer a oedd yn cynrychioli sut roedden nhw'n teimlo am y cynnig.

| **Rhif** | **Cwestiwn/Sylw** | **Ymateb** |
|---|---|---|
| 1. | Rydw i'n teimlo'n drist na fydda i gyda fy ffrindiau. | Efallai y bydd rhai o dy ffrindiau yn dewis mynd i'r un ysgol â ti. Bydd gyda ti gyfle i gwrdd â ffrindiau newydd hefyd.<br><br>Gwnaed awgrym hefyd i aelodau'r Cyngor Ysgol, efallai y gallai eu rhieni/gwarcheidwaid drefnu dyddiadau chwarae gyda rhai o'u ffrindiau y tu allan i'r ysgol, pe bydden nhw'n dewis mynd i ysgolion gwahanol. |

| | | |
|---|---|---|
| 2. | Bydda i'n gweld eisiau fy athrawon. | Dywedwyd wrth y Cyngor Ysgol ei bod yn ddealladwy eu bod nhw'n teimlo fel hyn, fodd bynnag, bydden nhw'n cael y cyfle i gwrdd â llawer o athrawon newydd a dysgu pethau cyffrous. |
| 3. | Rydw i'n hapus oherwydd bydda i yn yr un ysgol â fy mrawd. | Rydyn ni'n falch dy fod di'n teimlo'n hapus am fod yn yr un ysgol â dy frawd. |
| 4. | Rydw i'n teimlo'n drist bod fy ysgol yn cau. | Dywedwyd wrth aelodau'r Cyngor Ysgol ei bod yn ddealladwy eu bod nhw'n teimlo fel hyn ac os oes angen, dylen nhw siarad â'u rhieni/gwarcheidwaid neu athrawon. |

## 4. Sylwadau i Gloi

Hysbyswyd Cyngor yr Ysgol y byddai cyfle dros yr wythnosau nesaf iddyn nhw fyfyrio ar y cwestiynau ac ymatebion a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen.

Mae aelodau Cyngor yr Ysgol wedi cael eu hannog i gymryd rhan drwy lenwi'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:30.

## 5. Ymgysylltiad Disgyblion – Ymarfer 'Dweud Eich Dweud'

Yn rhan o'r ymarfer ymgysylltu gyda disgyblion Ysgol Babanod Trallwng, cafodd pob disgybl y cyfle i 'ddweud eu dweud'. Cafodd y disgyblion sticeri gydag wynebu trist, ansicr a hapus. Gofynnwyd iddyn nhw ddewis sticer a oedd yn cynrychioli sut roedden nhw'n teimlo am y cynnig neu ysgrifennu eu sylwadau a'u safbwyntiau mewn perthynas â'r cynnig.

Mae'r tabl dilynol yn amlinellu'r ymatebion a dderbyniwyd gan ddisgyblion o'r ymarfer gan ddefnyddio sticeri.

| **Sut mae'r cynnig yn gwneud i ti deimlo?** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Trist | | |
| Ansicr | | |
| Hapus | | |

Caiff y sylwadau a'r safbwyntiau o'r ymarfer yma eu cofnodi'n themâu cyffredinol, fel sydd wedi'i ddangos yn y tabl dilynol, ynghyd â llun sy'n darlunio enghraifft o un o'r ymarferion 'dweud eich dweud'.

| **Sylwadau/Themâu disgyblion** | |
|---|---|
| **Sylwadau** | **Nifer o weithiau y cafodd ei nodi** |